# Cynorthwyo caseg i fwrw ebol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynorthwyo caseg i fwrw ebol. Bydd hyn yn cynnwys paratoi'r bocs bwrw ebol, adnabod arwyddion bod caseg ar fin bwrw ebol, arsylwi caseg yn bwrw ebol ac ymdrin â'r ebol newydd-anedig.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am y cyfrifoldebau a'r dulliau o weithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. paratoi bocsys bwrw ebol yn unol â'r cyfarwyddiadau
3. paratoi a chynorthwyo i ddefnyddio'r offer priodol sydd ei angen ar gyfer bwrw ebol
4. adnabod y prif arwyddion bod caseg ar fin bwrw ebol a hysbysu'r person priodol ynghylch y rhain
5. cynorthwyo caseg i fwrw ebol yn unol â'r cyfarwyddiadau
6. ymdrin â'r ebol newydd-anedig mewn ffordd briodol, yn unol â'r cyfarwyddiadau
7. cynnal lefelau hylendid a bioddiogelwch addas
8. cynnal iechyd a diogelwch ceffylau,  chi eich hun ac eraill yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i baratoi bocsys bwrw ebol yn ymwneud â gofynion arbennig y gaseg sy'n bwrw ebol a'r ebol newydd-anedig
3. y mathau o offer ar gyfer bwrw ebol a'r dulliau o'i gynnal mewn cyflwr addas i'w ddefnyddio
4. prif gyfnodau bwrw ebol yn cynnwys arwyddion bod caseg ar fin bwrw ebol
5. y cymorth y gall fod angen i chi ei ddarparu wrth i gaseg fwrw ebol
6. y problemau a allai ddigwydd a phryd dylid galw'r milfeddyg
7. adweithiau'r gaseg i'r ebol newydd-anedig
8. sut i ymdrin ag ebol newydd-anedig
9. sut i gynnal cofnodion bwrw ebol
10. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch wrth i gaseg fwrw ebol a'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
11. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
12. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Cynorthwyo caseg i fwrw ebol ar un achlysur o leiaf:

- paratoi bocs bwrw ebol
- paratoi offer bwrw ebol
- adnabod arwyddion bod caseg ar fin bwrw ebol
- ymdrin â'r ebol newydd-anedig

Cynorthwyo caseg i fwrw ebol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq235 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; ebol; caseg; stalwyn; beichiogrwydd; newydd-anedig |